

# Sul y Genhadaeth

## Darllen: Luc 10: 1–2; 5–6

I ddechrau, dyma ffaith i'w hystyried. Iesu benododd genhadaeth y deuddeg a thrigain. Byddai'r sawl fyddai'n derbyn neu'n gwrthod y cenhadon hyn yn derbyn neu'n gwrthod Iesu, ac yn y pen draw yn gwrthod Duw ei hun. Dyma'r drefn: Duw yn anfon Iesu, ac Iesu'n anfon rhai i'w gynrychioli. Mae Iesu'n eu hanfon ac yn rhoi cyfeiriad pendant i'w cenhadaeth, 'i bob tref a man yr oedd ef ei hun am fynd iddynt' (Luc 10:1). Mewn gair, paratoi'r ffordd ar gyfer Iesu oedd y cenhadon hyn.

Cyn iddynt gychwyn ar eu taith, mae Iesu'n awyddus iawn i'r cenhadon weddio. Man cychwyn y cenhadu, felly, oedd troi at Dduw am arweiniad. Ymddiried yn Nuw a dibynnu arno, er mwyn dileu'r elfen hunanddigonol sy'n rhan mor greiddiol o'r natur ddynol. Nid dibynnu ar eu hadnoddau eu hunain, ond dibynnu'n hytrach ar nerth Duw. Wrth weddio, byddwn yn gwrandao ar ddulliau Duw, ffordd Duw ac amcanion Duw. Ar ôl noson o fethiant llwyr, heb ddal dim, gan ddibynnu ar ei adnoddau a'i nerth ei hun, ddaliodd Simon Pedr yr un pysgodyn. Ond 'ar dy air di' fe'i syfrdanwyd gan yr olygfa o weld y rhwyd yn llawn. Ymateb oedd Pedr i gomisiwn Iesu i 'ddal dynion'. Mae'r cam cyntaf wedi'i gymryd.

Mae'n werth sylwi nad anfonwyd y cenhadon ar eu pennau eu hunain ond 'bob yn ddau'. Pam hynny tybed? Y rheswm cyntaf ydi, er mwyn bod yn gefn i'r naill a'r llall. Llwybr unig ydi llwybr y cenhadwr ym mhob oes. Wrth fynd allan yn barau, gallent gefnogi ei gilydd a chreu cwmniâeth a chyfeillgarwch. Yn ôl y Gyfraith, nid oedd tystiolaeth unigolyn yn ddigon; roedd rhaid cael dau neu dri. Felly, roedd tystiolaeth dau i Iesu yn haeddu mwy o wrandawriad na thystiolaeth un, ac roedd eu perthynas â'i gilydd yn tystio i natur y genadwri Gristnogol. Oherwydd roedd y ffaith fod y ddau'n byw mewn cytgord a chariad yn brawf o addewid Duw i'w bobl. Daw hyn â ni at y rhwystrau sy'n llesteirio gwaith yr Efengyl yng Nghymru heddiw. Pan yw arweinwyr ein heglwysi'n dangos parch a chariad at yr

aelodau, a phan yw arweinwyr yr enwadau'n dangos goddefgarwch at ei gilydd, bryd hynny'n unig y gwelir Efengyl Iesu Grist yn dangos ei grym yn ein gwlad.

Ble mae dechrau? Yn y cartrefi, ar yr aelwydydd gan geisio cael teuluoedd i gyd-ddyheu ac i greu perthynas ddyrchafol. Y gair a ddefnyddiodd Iesu oedd 'tangnefedd', '*shalom*'. Y tebygrwydd oedd bod y cenhadon hyn wedi profi peth o rym y gair yn eu hymwneud â Iesu, a'u nod oedd cynnig i eraill hefyd ddedwyddwch cymdeithas â Duw ei hun. A thestun eu pregeth ar eu taith oedd, 'Y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos atoch' (Luc 10:11). Gwyddai Iesu beth oedd ystyr hyn gan ei fod wedi byw ei fywyd yn gyfan gwbl i wasanaethu Duw, a hynny trwy ufudd-dod llawn. Dyma'r bywyd y mae'n awyddus i'w ddilynwyr ei fyw.

### **Myfyrdod pellach:**

Ydych chi fel aelod o'ch eglwys wedi meddwl am fynd o ddrws i ddrws yn eich ardal? Beth sydd yn eich rhwystro?

Ai yn ein pentrefi a'n trefi y mae dechrau cydweithio a chwalu'r rhagfuriau sy'n rhwystr i'r Efengyl? Beth am adleisio geiriau Simon Pedr, 'ar dy air di'.